

Madog - Chwilio am y gwirionedd

gan Howard Kimberley

Mae y rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â stori Madog yn hwylio i'r Amerig oddeutu'r flwyddyn 1170. Tybir iddo fod yn fab anghyfreithlon i Owain Gwynedd ac yn brif forwr yn llynges ei dad. Tuedda haneswyr o safon ddiystyru'r stori fel un a grewyd yn ystod Oes Elisabeth er mwyn hawlio blaen ar y Byd Newydd drwy ddatgan fod Madog wedi darganfod yr America 300 mlynedd cyn Columbus. Mae hawlio bod unrhyw Ewropead wedi darganfod yr America yn esgymun i'r Americanwyr brodorol a oedd wedi byw yno filoedd o flynyddoedd yn gynt cyn cyrhaeddiad y dyn gwyn.

Hawlia haneswyr nad oes tystiolaeth fod gan Owain Gwynedd fab o'r enw Madog. Ond rydw i wedi dod ar draws pedwar cyfeiriad. Mae'r holl gopiau, fodd bynnag, yn gyn-golumbaidd, ond maent yn gopiau o gopiau gwreiddiol cynharach.

'Indiaid gwyn, Cymraeg eu hiaith'

Felly, pa dystiolaeth sydd ar gael o 'dros yr Iwerydd? Mae yna nifer o chwedlau am lwythi o 'Indiaid gwyn, Cymraeg eu hiaith' ond dydw i ddim yn credu bod y ffasiwn beth yn bodoli. Ond beth rydw i yn ei gredu yw hyn - bod rhai llwythi o Indiaid lle roedd teuluoedd yn eu mysg oedd â rhai nodweddion gwyn ac a allai fod wedi siarad rhyw fath o Gymraeg. Y Mandiaid, fel arfer, yw'r llwyth sy'n cael eu cysylltu â'r chwedlau hyn am Indiaid Cymraeg. Ychydig o flynyddoedd yn ôl, cwrddais â Keith Bear, Mandanwr, a dywedodd ddau beth wrthyf. Yn gyntaf, cyn y ddau epidemig o'r Frech wen a oedd yn gyfrifol am bron â dileu llwyth y Mandaniaid yn gyfan gwbl, roeddynt ymysg prif Lwythi'r Gwastadeddau ac â thua deugain o filoedd yn perthyn iddynt.

Yn ôl y chwedl, ar yr ail fordaith, roedd rhwng deg a thri ar ddeg o filoedd o longau a gariai anifeiliad a bwydydd, felly mae'n siwr y byddai'r llongau yn dal rhwng deugain a chwe deg o bobl. Petai pedwar cant o 'ddynion gwyn' wedi goroesi ac wedi'u cymhathu â'r Mandaniaid, un y cant yn unig o'r Llwyth fyddai hynny, ac hyd yn oed petaem ni'n credu bod wyth cant wedi ymuno â'r Mandaniaid, dim ond tua dau y cant o bobl gwyn fyddai yno wedyn.

Yr ail beth ddywedodd Keith Bear oedd bod gwahanol rannau o hanes y Mandan wedi'u cadw gan wahanol deuluoedd o fewn y Llwyth. Pan ddaeth 'anrheg y dyn gwyn' sef, y Frech Wen, dileuwyd canghennau cyfan o'r Llwyth, a chollwyd y rhan fwyaf o'u hanes.

Felly beth arall y gwn i am yr Indiaid Cymraeg hyn? Trwy fy safle we www.madoc1170.com, deuthum ar draws rhywun o'r enw 'Lonewolf' - y mae llinach ei fam yn mynd yn ôl i grŵp bach o fewn llwyth y Shawnee Nation o'r enw 'The White

Madoc' a oedd yn byw ym mhentref White Plains, ger yr afon Allegheny, Pittsburgh. Pobl â chroen golau oedden nhw, ac arferai'r Ewropeaid eu galw'n 'Half breeds' pan ddeuent mewn cysylltiad â nhw. Enw eu Prif olaf oedd Chief White Madoc, a werthodd White Plains i ymsefydlwyr cynnar o Ewrop. Mae'r trosglwyddiad hwn yn gofnod llys sirol hanesyddol o'r ddeunawfed ganrif.

Rydw i'n credu fy mod i'n Gymro ar ochr fy mam. Pan gawsom brofion DNA ychydig o flynyddoedd yn ôl, gwelwyd bod gan Lonewolf a fi yr un DNA Mitochondrial (benywaidd). Dyna i chi gyd ddiwyddiad! Beth dydyn ni ddim yn gallu ei brofi oedd pa bryd yr etifeddodd Lonewolf 'Famgu'

Trwy achau mam Lonewolf y mae'r cyswllt Cymreig

Y mae hanes teuluol Lonewolf hefyd yn cadarnhau chwedl y Cherokee am frwydr fawr ar Falls Ohio yn erbyn dynion gwyn, a barhaodd dridiau cyn galw am heddwch, a phan gyfnewidiwyd carcharorion, cytunodd y dynion gwyn i adael a pheidio byth â dychwelyd. Mae'n bur debyg bod prif garfan y dynion gwyn wedi dod lawr yr Ohio ac yna i fyny'r Mississippi/Missouri a'u cymhathu â'r Mandiaid. Credwn fod carfan fach wedi mynd i'r gogledd ac ymsefydlu ymysg y Shawnees; hwyrach iddynt gael eu cymryd yn wystlon neu'n garcharorion. Mae'n werth cofio mai trwy achau mam Lonewolf y mae'r cyswllt Cymreig.

Beth ellir ei wneud i geisio dod o hyd i'r gwirionedd? Gofynnais i'r Athro Brian Sykes, Prifysgol Rhydychen, sydd wedi cysylltu DNA 9,000 oed, dyn o ogofau Cheddar ag athro ysgol lleol, a allwn ni wirio cysylltiadau rhwng Mandiaid heddiw a Chymry, a'i ateb oedd, 'Wrth gwrs, ond ni ellir pennu amser ar y cysylltiadau. Byddai'n rhaid i chi fatisio DNA cyn-Golumbiaidd o America i DNA o Gymru. Yma mae'r sialens.

Yr Indiaid wedi bod yn brwydro i warchod eu safleoedd claddu

Mae'r Americanaid Brodorol wedi brwydro'n galed i warchod eu manau claddu hynafol rhag cael eu rheibio gan ladron. Gan iddynt barchu eu hynafiaid fel duwiau, yna dylid parchu eu credoau. Mae Llywodraeth yr U. D. wedi sefydlu y 'Native American Graves Protection and Repatriation Act' (NAGPRA), gyda chosb drom i unrhyw un sy'n amharu ar leoliad heb ganiatad. Mae'n eironig bod cynifer o esgyrn o'r manau hyn eisoes mewn amgueddfeydd o



Lonewolf - Y mandaniaid

gwmpas Falls Ohio o gwmpas Louisville, Kentucky. Mae'n eironig, hefyd, y gallan nhw fod o Gymru yn hytrach nag o America Brodorol.

Mae yna ddau beth ynghlwm â'r sialens :

1. Rhaid perswadio'r awdurdodau i ryddhau samplau DNA i'w profi a'u carbon-ddyddio.
2. Rhaid casglu arian er mwyn i'r profion hyn gael eu gwneud gan sefydliadau annibynnol hollol ddilys ar bob ochr yr Iwerydd, megis Prifysgol Rhydychen yn y D.U. a Ial/Harvard yn yr U.D.A.

Mae Lonewolf : Lonewolf99@aol.com yn cydgorio'r sialens gyntaf. Mae yna gyfle da fan hyn gan fod Sundeia Murphy, Llywydd Falls of the Ohio Archaeological Society tan ddiwedd 2008, yn gyswllt gwerthfawr.

Bydd Llywydd y Madoc International Research Association (MIRA), Yr Athro Bernard Knight, DMJ, Barrister, Athro Emeritws Patholeg Fforensig, yn ymgymryd a thasg ymchwil y DNA, a gellir cysylltu ag ef ar : knight.j4@sky.com. 'Dim ond ein dychymygy sy'n cyfyngu ein gweledigaeth'

(Ar hyn o bryd, mae'r awdur yn dilyn cwrs gradd meist'r mewn hanes Celtaidd yn Mhrifysgol Cymru, Llanbedr, i'w gynorthwyo i ddilyn tarddle'r ffynonellau hyn. Gwyddoniaeth yw ei radd gyntaf ac mae wedi bod yn gweithio yn y byd cynnal Busnes a Pherianneg).